CHWARAEON ANABLEDD CYMRU
DISABILITY SPORT WALES

# Beth yw Boccia?

Mae Boccia yn debyg i bowls a llawer o gemau taflu pêl.

Yr egwyddor sylfaenol yw sgorio cymaint o bwyntiau â phosib drwy gael cymaint â phosib o'ch peli Boccia eich hun yn nes at y jac (neu'r bêl darged) na'ch gwrthwynebydd.




Boccia
CYMRU WALES


Cyflwynir gan Chwaraeon Anabledd Cymru
Delivered by Disability Sport Wales

Mae posib chwarae Boccia:

- Mewn timau (3 bob ochr)
- Mewn parau (2 bob ochr)
- Unigol




Gall y chwaraewyr daflu, rholio neu gicio'r bêl, neu ei rholio i lawr ramp sy'n anfon pêl



# Offer


Mae set boccia yn cynnwys 13 o beli, 6 o beli coch a 6 o beli glas a jac neu bêl darged wen

Fel arfer mae peli Boccia wedi'u gwneud o ledr, feinyl neu blastig ac maent yn cael eu llenwi â thywod neu ddeunydd tebyg.



Rhaid i'r chwaraewyr aros o fewn eu bocs wrth chwarae!

# Cwrt Boccia




# Defnyddwyr rampiau



Mae rampiau'n addasiad gwych i gêm o Boccia gan alluogi chwaraewyr o bob gallu i chwarae.

Gall chwaraewyr sy'n methu taflu neu gicio Pêl Boccia ddefnyddio ramp. Wrth chwarae gyda ramp, rhaid i'r chwaraewr Boccia benderfynu ar ba fath o ergyd mae eisiau ei chwarae.

Rhaid i'r chwaraewr Boccia benderfynu ar y canlynol:

- Ble i anelu'r ramp
- Ar ba ongl mae'r ramp
- Ble mae'r bêl yn cael ei gosod ar y ramp

Mae defnyddiwr ramp yn gallu cael cefnogaeth i'w helpu gyda'r uchod os nad yw'n gallu gwneud hyn ei hun ond ni all gael unrhyw gyngor ar yr ergyd a ddewisir.

# Sut i Chwarae



**Mae Boccia yn gêm darged.**

Mae'r dimensiynau cwrt sy'n cael eu hargymell yn cael eu dangos, ond mae posib chwarae boccia ar unrhyw ardal o faint addas, ac unrhyw arwyneb dan do neu yn yr awyr agored.

Mewn boccia (3 bob ochr), mae pob chwaraewr yn taflu 2 bêl sy'n cyfateb i liw eu tîm – coch neu las.

Gellir anfon y peli mewn unrhyw ffordd dim ond bod gan y chwaraewr gyswllt uniongyrchol wrth ryddhau'r bêl (h.y. ni chewch daro'r bêl gyda darn o offer er mwyn ei hanfon).

6

Mewn boccia tîm, mae pob gêm yn cynnwys 6 phen – mae pen yn cael ei gwblhau pan mae pob un o'r 13 o beli wedi cael eu chwarae.

1

Bydd y tîm sy'n chwarae gyda'r peli coch yn taflu'r jac i ddechrau a rhaid i'r jac lanio o fewn terfynau'r cwrt.

Mae'r bêl jac yn cael ei thaflu gan bob chwaraewr yn ei dro ar ddechrau pob pen. Mae'r chwaraewr coch ym mocs 1 (y bocs chwith pellaf wrth wynebu'r cwrt) yn dechrau'r gêm ac mae'r chwaraewr ym mocs 6 (y bocs pellaf i'r dde) yn dechrau'r pen terfynol.

Bydd y tîm sy'n taflu'r jac hefyd yn chwarae'r ergyd gyntaf yn y pen hwnnw.

2

Wedyn mae'r tîm arall yn chwarae eu pêl liw gyntaf ar y cwrt.

Mae'r tîm sydd bellaf oddi wrth y jac yn parhau i chwarae eu peli nes eu bod yn mynd yn nes (neu'n rhedeg allan o beli) a bryd hynny, mae'r tîm arall yn chwarae.

Mae'r tîm gyda'r nifer mwyaf o beli agosaf at y jac yn sgorio 1 pwynt am bob pêl sgorio (h.y. pob pêl sy'n nes na phêl agosaf y tîm arall).

Ar ôl cwblhau 6 phen, mae'r pwyntiau sydd wedi'u sgorio ym mhob un yn cael eu adio at ei gilydd – y tîm gyda'r sgôr uchaf sy'n ennill.

7*

Os yw'r sgôr yn gyfartal ar ôl 6 phen, mae gêm ychwanegol yn cael ei chwarae. Mae'r bêl jac yn cael ei gosod ar groes ac mae'r timau'n taflu darn arian i benderfynu ar drefn y chwarae.

Os caiff y bêl jac ei thaflu neu ei chnocio allan o'r cwrt wrth chwarae, mae'n cael ei gosod yn ôl ar y groes ac mae'r chwarae'n parhau.

Os bydd dwy neu fwy o beli yn gyfartal agos at y jac ym mhen draw'r llain, maent yn sgorio 1 pwynt.

Boccia CYMRU WALES

# Ymosod ac Amddiffyn




## Sut i Chwarae

**Nifer y chwaraewyr:**

- 2 dîm o 3 neu fwy.
- Marcio 3 parth.
- Pob tîm yn mynd i'r 2 barth allanol.

**Sgorio drwy:**

- Cnocio'r bêl darged ar draws llinell flaen y gwrthwynebwyr.
- Cael peli'n nes at y bêl darged ar ôl i'r holl beli gael eu defnyddio.
- Ni ddylai unrhyw chwaraewr fynd dros y llinell flaen.

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Pêl darged (mawr neu fach).

Wnaethoch chi geisio sicrhau bod y timau wedi'u cyfateb yn gyfartal?

Wnaethoch chi chwarae fel tîm?

Boccia CYMRU WALES

# Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Gall defnyddwyr rampiau ddefnyddio hwn i farnu pellter a lleoliad ar y cwrt.

Cyfathrebu ag aelodau'r tîm i weld pwy sydd yn y sefyllfa orau i chwarae.

Sicrhau ergyd gadarn i gnocio'r bêl darged i'r ardal sgorio.

# Sut Beth yw Llwyddiant

- Taro'r targed.
- Ergyd Chwalu – mae'r ergyd yma'n cael gwared ar unrhyw beli blocio sy'n cuddio'r targed.
- Ergyd Flocio – ergyd i flocio'r gwrthwynebydd rhag taro'r bêl darged.

---

# STEP

## Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau pellter yr ardal chwarae | Cynyddu pellter yr ardal chwarae |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Rhaid i'r chwaraewyr daflu eu pêl i barth sgorio yn hytrach na tharo'r bêl darged | Cael dwy neu fwy o beli targed yn yr ardal chwarae |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint y bêl darged<br>Defnyddio pêl darged ysgafnach | Lleihau maint y bêl darged<br>Defnyddio pêl "Jac" fel y bêl darged |
| **Pobl** People yn Saesneg | Cynyddu nifer y chwaraewyr mewn un tîm | Lleihau nifer y chwaraewyr mewn un tîm |

Boccia CYMRU WALES

# Amddiffyn Eich Ardal




## Sut i Chwarae

- Y chwaraewyr yn anelu am yr ardal darged o'u lliw hwy.
- Y chwaraewyr yn cael dewis anfon eu peli tuag at ardal darged y tîm arall a chnocio peli'r gwrthwynebwyr allan o'u targed.
- Sgorio drwy gyfrif peli pan mae'r amser wedi dod i ben. Gall hyn fod ar ôl amser y cytunwyd arno neu ar ôl i nifer penodol o beli gael eu taflu gan bob tîm.

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Cylchoedd, conau, sialc, casys gobennydd.

Pa dactegau allwch chi eu defnyddio i chwarae'r gêm yma?

A yw'n well dewis eich ardal, neu ymosod ar eich gwrthwynebwyr?

Sut gallai mwy o bobl chwarae'r gêm yma?

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Anelu fymryn o flaen yr ardal darged.

Ceisio blocio targed eich gwrthwynebwyr i stopio mynediad.

Sicrhau ergydion cadarn i gnocio pêl y gwrthwynebwyr allan o'r ardal.

## Sut Beth yw Llwyddiant

- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau anfon e.e. rholio, taflu, lob ac ati
- Cnocio pêl gwrthwynebwyr
- Manwl gywirdeb – gosod eich pêl yn y targed

## STEP

### Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau'r pellter at y targed | Cynyddu'r pellter at y targed |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Y chwaraewyr yn cael anelu at eu targed eu hunain yn unig | Ychwanegu mwy o dargedau at y gêm |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint y targed | Lleihau maint y targed |
| **Pobl** People yn Saesneg | Lleihau nifer y chwaraewyr sy'n cymryd rhan | Gall y timau eistedd y naill ben i'r ardal chwarae |

Boccia CYMRU WALES

# Boccia Golff

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau, Peli Tennis

Targedau:
Cylchoedd, Matiau, Conau, Sialc, Sgitls, Poteli Llefrith Plastig, Cadeiriau


## Sut i Chwarae

- Drwy ddefnyddio'r holl sgiliau rydych chi wedi'u dysgu yn y Cardiau Gweithgarwch Boccia eraill, ewch ati i greu eich Cwrs Boccia Golff eich hun.
- Sefydlu nifer o dyllau targed.
- Cytuno beth ddylai safon y cwrs fod a faint o rowndiau ddylid eu cwblhau.
- Bydd y chwaraewyr yn chwarae eu tro o ble bynnag fydd eu Pêl Boccia yn gorffen nes iddynt gwblhau'r twll.

Mae'r chwaraewyr yn cwblhau pob twll ar y cwrs ac yn anelu at orffen gyda'r nifer isaf o droeon.

Wnaethoch chi adio eich sgôr wrth fynd rownd y cwrs?

Neu wnaethoch chi a'ch partner wirio sgôr eich gilydd?




Boccia CYMRU WALES

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Pa fath o ergyd sydd orau i bob twll? e.e. rholio, taflu, lob

Fedrwch chi flocio ergyd chwaraewyr y gwrthwynebwyr gyda'ch pêl?

Fedrwch chi anelu at adlamu eich pêl oddi ar wrthrych i dwll?

## Sut Beth yw Llwyddiant

- Treialu gwahanol arddulliau taflu
- Creu eich tyllau eich hun gan ddefnyddio gwahanol offer
- Cnocio eich pêl oddi ar wrthrych i mewn i'r twll

## STEP

## Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau pellter y tyllau<br>Cynyddu maint y tyllau | Cynyddu pellter y tyllau<br>Lleihau maint y tyllau |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Lleihau nifer y tyllau | Ychwanegu rhwystrau "allan o'r chwarae" a bydd y chwaraewyr yn cael eu cosbi un ergyd am lanio arnynt |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Lleihau nifer y rhwystrau ar bob twll<br>Sicrhau nad yw'r rhwystrau'n blocio defnyddwyr ramp a'u bod yn deg i bawb | Cynyddu nifer y rhwystrau ar bob twll.<br>Creu bylchau llai rhwng y rhwystrau i ddefnyddwyr ramp anelu drwyddynt |
| **Pobl** People yn Saesneg | Y chwaraewyr yn cadw eu sgôr eu hunain ac yn ceisio trechu eu gorau personol eu hunain | Y chwaraewyr i gystadlu yn erbyn ei gilydd |

Boccia CYMRU WALES

# Yn y Parth Sgorio

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Parasiwt, Cylchoedd, Conau, Sialc, Casys Gobennydd.

## Sut i Chwarae

**Nifer y chwaraewyr:**

Gellir ei chwarae mewn grwpiau bychain, parau neu'n unigol.

- Marcio parth sgorio, gan neilltuo gwahanol bwyntiau i bob ardal yn y parth.
- Y chwaraewyr yn sgorio drwy anfon peli i'r parth sgorio.
- Rhaid i'r chwaraewyr daflu bob yn ail.




?

Pa dactegau allai tîm eu defnyddio yn y gêm hon?

Sut gallech ei gwneud yn fwy anodd i'r tîm arall sgorio?

Allech chi gael timau y naill ben i'r cwrt?

Boccia CYMRU WALES

# Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Ceisio blocio'r gwrthwynebwyr rhag sgorio

Trafod gydag aelodau eich tîm pwy sydd yn y sefyllfa orau i chwarae

Anelu o flaen y targed fel nad yw'r bêl yn rholio'n rhy bell

# Sut Beth yw Llwyddiant

- Anelu am y parth sgorio uchaf
- Cydweithio fel tîm
- Trechu eich sgôr uchaf

## STEP Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau'r pellter at y targed<br>Cynyddu maint pob parth sgorio | Cynyddu'r pellter at y targed<br>Lleihau maint pob parth sgorio |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Lleihau nifer y parthau sgorio | Cynyddu nifer y parthau sgorio<br>Ychwanegu rhwystrau i'r chwaraewyr daflu drostynt |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint yr ardal darged<br>Defnyddio bagiau ffa er mwyn i wrthrychau aros ar y targed | Lleihau maint yr ardal darged |
| **Pobl** People yn Saesneg | Lleihau nifer y chwaraewyr sy'n cymryd rhan | Un tîm yn ymosod ac un tîm yn amddiffyn drwy flocio'r parthau sgorio gyda'u peli |

Boccia CYMRU WALES

# Boccia Targed

Ydi'r gêm yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?

Sut gellir gwneud y gêm yn fwy heriol a diddorol?


## Sut i Chwarae


- Gosod nifer o gylchoedd neu fatiau targed ar y llawr
- Mewn parau, mae'r plant yn cydweithredu neu'n cystadlu yn erbyn ei gilydd
- Trafod a chytuno ar y system sgorio
- Chwarae i gael y nifer uchaf o bwyntiau


## Offer


Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau


Targedau:
Cylchoedd, Conau, Sialc, Casys Gobennydd, Bocsys, Poteli Llefrith Plastig, Sgitls, Meinciau, Cadeiriau




Boccia CYMRU WALES

# Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Ymarfer ffyrdd o anfon y bêl e.e. rholio, taflu, lob, cicio

Wrth daflu, ceisiwch ryddhau'r bêl pan mae'r llaw wedi ymestyn tuag at y targed

Anelwch o flaen y targed rhag gordaflu

# Sut Beth yw Llwyddiant

- Defnyddio amrywiaeth o ergydion
- Cyfathrebu rhwng parau
- Taro'r targed gyda'r nifer lleiaf posib o ergydion

## STEP

## Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:


| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau'r pellter at y targedau | Cynyddu'r pellter at y targedau |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Cynyddu nifer y targedau<br>Sicrhau bod y targedau'n hygyrch ar gyfer chwaraewyr sydd ond yn gallu rholio'r bêl | Cyflwyno rhwystrau |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint y targedau | Lleihau maint y targedau |
| **Pobl** People yn Saesneg | Gweithio fel tîm i daro'r holl dargedau drosodd | Cystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pwy all daro mwy o dargedau |

Boccia CYMRU WALES

# Gêm OXO

Mae cylchoedd yn gwneud targedau gwych i anelu atynt. Maent yn dod mewn ystod o wahanol feintiau a gallant fod yn hwyl i ymarfer gyda nhw.

Beth am geisio eu trefnu fel Gêm OXO, a herio chwaraewyr i gael peli boccia mewn llinell o dair?



## Sut i Chwarae

- Gosod 9 cylch mewn grid 3x3
- Y chwaraewyr i gymryd tro i daflu un bêl ar y tro
- Y chwaraewyr yn gorfod cael tair pêl mewn rhes i ennill

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Cylchoedd, Conau, Sialc, Casys Gobennydd, Papur

Boccia CYMRU WALES

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Ceisio cnocio eich pêl ar darged oddi ar bêl arall

Meddwl am dactegau a pha darged i anelu ato

Anelu am y targedau agos at y ffrynt i weithredu fel blocwyr

## Sut Beth yw Llwyddiant


- Cael tair mewn rhes
- Blocio chwaraewr/wyr y tîm arall
- Cnocio pêl y gwrthwynebwyr allan o’r ardal darged

## STEP

### Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| Gofod — Space yn Saesneg | Lleihau’r pellter at y targedau | Cynyddu’r pellter at y targedau |
| Tasg — Task yn Saesneg | Tynnu cylch er mwyn creu grid 2x2 | Ychwanegu cylchoedd i wneud grid 4x4 |
| Offer — Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint pob targed | Lleihau maint pob targed |
| Pobl — People yn Saesneg | Y chwaraewyr yn chwarae yn erbyn eu hunain | Cynyddu nifer y chwaraewyr yn un gêm |

# Fflip Boccia




## Sut i Chwarae

- Y chwaraewyr yn cael un cylch o'u blaen.
- Bob tro mae eu pêl yn glanio yn y cylch, maent yn fflipio'r cylch drosodd.
- Yr enillydd yw'r person cyntaf i gael ei gylch i bwynt penodol.

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Cylchoedd, Conau, Sialc, Casys Gobennydd, Papur

Boccia CYMRU WALES

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Ymarfer ergydion o wahanol hyd

Ymarfer ffyrdd o anfon y bêl e.e. rholio, taflu, lob

Ceisio blocio'r gwrthwynebwyr

## Sut Beth yw Llwyddiant


- Gorffen y gêm mewn cyn lleied o ergydion â phosib
- Barnu'r newid yn y pellter yn gywir
- Defnyddio amrywiaeth o ergydion ar gyfer pob pellter

## STEP

### Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| Gofod – Space yn Saesneg | Lleihau'r pellter at y targedau | Cynyddu'r pellter at y targed |
| Tasg – Task yn Saesneg | Targed yn symud i'r ochr yn lle ymhellach i ffwrdd | Cynyddu nifer y peli ym mhob targed cyn fflipio'r targed<br>Os byddwch yn glanio eich pêl yn nharged y gwrthwynebwyr, rhaid iddynt fflipio eu cylch yn ôl i'w leoliad blaenorol |
| Offer – Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint pob targed | Lleihau maint pob targed |
| Pobl – People yn Saesneg | Pawb yn gweithio fel tîm i fflipio'r targed | Gall y pellter at y targedau amrywio ar gyfer pob chwaraewr |

# Adlamwyr



## Sut i Chwarae

- Gosod 3 pêl wrth darged
- Pob chwaraewr yn cael 6 ergyd
- Y nod yw cnocio'r 3 o beli coch ar y targed

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Cylchoedd, Conau, Sialc,
Casys Gobennydd

Boccia CYMRU WALES

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Defnyddio digon o rym i gnocio'r peli coch ar y targed

Dewis un bêl ar y tro i anelu ati

Rhoi cynnig ar wahanol fathau o ergydion a chael gwybod pa un sy'n gweithio orau i chi i symud y peli coch

## Sut Beth yw Llwyddiant

- Taro'r peli coch
- Cnocio'r peli coch ar y targed
- Dod o hyd i'ch hoff fath o ergyd i gnocio'r peli coch

## STEP

### Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| Gofod (Space yn Saesneg) | Lleihau'r pellter rhwng y targedau | Cynyddu'r pellter rhwng y targedau |
| Tasg (Task yn Saesneg) | Y chwaraewyr yn gorfod dim ond taro'r peli coch yn hytrach na'u cnocio ar darged | Rhaid i'r chwaraewyr gael y 3 o beli coch ar y targed yn ogystal â 3 eu hunain |
| Offer (Equipment yn Saesneg) | Defnyddio peli mwy/llai i'w cnocio at y targed | Cynyddu nifer y peli coch o amgylch y targed |
| Pobl (People yn Saesneg) | Gweithio fel tîm i gnocio'r peli ar y targed | Chwarae yn erbyn chwaraewyr eraill, y tîm cyntaf i gael eu peli i gyd ar y targed sy'n ennill |


Boccia CYMRU WALES

# Snwcer Boccia

## Offer

Gwrthrychau Taflu:
Peli Boccia, Bagiau Ffa, Rampiau

Targedau:
Cylchoedd, Conau, Sialc, Casys Gobennydd, Poteli Plastig, Bwcedi




## Sut i Chwarae

- Gosod 7 targed gwahanol allan o flaen y chwaraewr

Pob targed yn cynrychioli lliw:

| | |
|---|---|
| Coch | 1 pwynt |
| Melyn | 2 bwynt |
| Gwyrdd | 3 phwynt |
| Brown | 4 pwynt |
| Glas | 5 pwynt |
| Pinc | 6 phwynt |
| Du | 7 pwynt |

- Mae'r chwaraewyr yn gorfod anelu at y targed coch, os byddant yn taro'r targed coch, maent yn cael 1 pwynt
- Ar ôl taro'r targed coch gallant anelu am unrhyw liw arall
- Os byddant yn taro'r lliw hwnnw, bydd y pwyntiau sy'n gysylltiedig â'r lliw hwnnw'n cael eu hychwanegu at eu sgôr. E.e coch (1) + pinc (6) = 7 pwynt
- Y chwaraewyr yn cymryd eu tro i gyd
- Os byddwch yn methu'r bêl goch, tro eich gwrthwynebydd fydd hi wedyn

## Cyngor Doeth yr Hyfforddwyr

Anelu am y targedau agosaf i ddechrau

Symud ymlaen i anelu am y targedau pellaf

Ymarfer ergydion o wahanol hyd

## Sut Beth yw Llwyddiant

- Taro'r targedau
- Trechu eich sgôr Gorau Personol
- Cael 8 pwynt yn gyson

---

## STEP

## Addasu anhawster y gêm gan ddefnyddio STEP:

| | Haws ★ | Anoddach ★★★ |
|---|---|---|
| **Gofod** Space yn Saesneg | Lleihau'r pellter at y targedau<br>Lleihau'r gofod rhwng y targedau | Cynyddu'r pellter at y targedau<br>Cynyddu'r gofod rhwng y targedau |
| **Tasg** Task yn Saesneg | Y chwaraewyr yn gallu dechrau drwy daro unrhyw darged lliw<br>Sicrhau bod posib taro pob targed gydag ergyd rholio | Y chwaraewyr yn gorfod taro'r lliwiau yn nhrefn sgorio pwyntiau<br>Gosod y targedau sgôr uwch mewn ardaloedd anoddach eu cyrraedd e.e. tu ôl i darged arall |
| **Offer** Equipment yn Saesneg | Cynyddu maint y targedau | Lleihau maint y targedau |
| **Pobl** People yn Saesneg | Chwarae i drechu eich gorau personol eich hun | Gall y chwaraewyr adael blocwyr o flaen y targedau |

Boccia CYMRU WALES